



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holi ac Ateb

Y Gofynion ar gyfer Tocio Cynffonnau Cŵn Gwaith

Pa fathau o gŵn y gellir tocio'u cynffonnau?

Mae cynffonnau cŵn gwaith o'r mathau canlynol (ond nid cyfuniadau o fridiau) yn gymwys i gael eu tocio:

Tarfgwn:

English Springer Spaniel

Tarfgi Cymreig

Cocker Spaniel

Daeargwn:

Daeargi Jack Russell

Cairn Terrier

Lakeland Terrier

Norfolk Terrier

Cŵn Hela, Marcio, Adar:

Braque Eidalaid

Tarfgi Llydaw

Pointer Blew Hir Almaenig

Pointer Blew Byr Almaenig

Pointer Blew Garw Almaenig

Vizsla Hwngari

Vizsla Blew Garw Hwngari

Spinone Eidalaid

Ci Dŵr Sbaen

Weinmaraner

Korthals Griffon

Pointer Blew Garw Slofacia

Munsterlander Mawr

Munsterlander Bach

Sut fydda i'n gwybod bod cynffon fy nghi wedi cael ei thocio'n gyfreithlon?

Mae'r eithriad yn caniatáu i fathau penodol o gŵn gwaith gael eu cynffonnau wedi'u tocio gan filfeddyg. Rhaid gwneud hyn pan fydd y ci ddim mwy na 5 diwrnod oed. Os yw cynffon ci

wedi cael ei thocio gan filfeddyg bydd y bridiwr neu'r sawl sy'n gwerthu'r ci wedi cael tystysgrif, a dylent roi'r dystysgrif honno i chi.

Bydd rhaid i gi y mae ei gynffon wedi'i thocio gael ei ffitio â microsglodyn cyn ei fod yn 3 mis oed. Os cewch y ci cyn ei fod yn 3 mis oed byddem yn eich annog i wneud yn siŵr fod ganddo ficrosglodyn cyn cymryd meddiant ohono a bod pob rhan o'r dystysgrif wedi'i llenwi. Milfeddygon yw'r unig rai sydd â'r hawl i docio cynffonnau cŵn gwaith a nhw'n unig sydd i benderfynu a ddylid tocio cynffon ci ai peidio.

A oes unrhyw eithriadau i'r Rheoliadau?

Yr unig eithriad i'r rheoliadau yw pan fydd cynffon ci (o unrhyw frid) wedi cael niwed a bod angen ei thocio am resymau meddygol. Nid oes angen unrhyw ddogfennau ar gyfer y driniaeth hon, ond cynghorir bod y milfeddyg sy'n cyflawni'r driniaeth yn cadw cofnod ohoni ar ffeil y ci.

A oes unrhyw bapurau i brofi bod y weithdrefn wedi cael ei chyflawni'n gyfreithlon?

Oes, rhaid bod gan y ci dystysgrif yn dangos lle cafodd ei gynffon ei thocio, ac at ba ddiben (ee rheoli plâu)

Sut mae cael y dystysgrif?

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi tystysgrifau'n uniongyrchol i filfeddygon iddynt hwy eu llenwi. Gall milfeddygon gael y tystysgrifau drwy gysylltu â thîm lles anifeiliaid Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

Ffôn: 03000 256316/03000 255652

E-bost: companionanimalwelfare@gov.wales

Gall milfeddygon lunio'u tystysgrifau eu hunain, ar yr amod eu bod yn unol ag Atodlen 2 o Reoliadau Tocio Cynffonnau Cŵn Gwaith (Cymru) 2007. Byddai'n well gennym fod y tystysgrifau'n cael eu harchebu gan Lywodraeth Cymru fel y gallwn gynnig help a chynghor yn gyflym os oes unrhyw faterion y mae angen eu datrys.

Rhaid i berchennog ci ddangos y dystiolaeth ganlynol i brofi bod y ci yn debygol o gael ei ddefnyddio fel ci gwaith:

(a) tystiolaeth am fam y ci;

(b) datganiad wedi'i lenwi yn Rhan 1 o dystysgrif ag arni lofnod perchennog y ci a dyddiad llofnodi, neu lofnod person arall y mae gan y milfeddyg reswm teg dros gredu ei fod yn cynrychioli'r perchennog; ac

(c) un o'r canlynol -

(i) pan fydd y ci yn cael ei gyflwyno i'w ardystio ar ran un o luoedd arfog Ei Mawrhydi, dogfennau adnabod y lluoedd arfog;

(ii) pan fydd y ci yn cael ei gyflwyno i'w ardystio ar ran corff sy'n darparu gwasanaeth achub mewn argyfwng, dogfennau adnabod y gwasanaeth achub;

(iii) pan fydd y ci yn cael ei gyflwyno i'w ardystio ar ran awdurdod yr heddlu, dogfennau adnabod yr heddlu;

- (iv) pan fydd y ci yn cael ei gyflwyno i'w ardystio ar ran Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi neu ar ran sefydliad sydd dan gontract i ddarparu gwasanaethau gwarchod ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, dogfennau adnabod y gwasanaeth carchardai;
- (v) pan fydd y ci yn cael ei gyflwyno i'w ardystio ar ran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, dogfennau adnabod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;
- (vi) tystiolaeth y bydd perchennog y ci, neu asiant neu weithiwr y perchennog sydd fwyaf tebygol o fod yn defnyddio'r ci, yn ei ddefnyddio ar gyfer gwaith mewn perthynas â rheoli plâu yn gyfreithlon;
- (vii) tystysgrif gyfredol dryll neu wn a roddwyd i berchennog y ci neu i asiant neu weithiwr y perchennog sydd fwyaf tebygol o fod yn defnyddio'r ci ar gyfer gwaith mewn perthynas â saethu anifeiliaid yn gyfreithlon;
- (viii) llythyr gan giper, tirfeddiannwr (neu ei asiant), person â hawliau saethu, trefnydd digwyddiad saethu, swyddog clwb, person sy'n cynrychioli Ffederasiwn Genedlaethol Daeargwn Gwaith neu berson sy'n ymwneud â rheoli plâu yn gyfreithlon, yn datgan bod bridwr y ci y mae bwriad i docio'i gynffon yn hysbys iddo a bod cŵn a fridiwyd gan y bridwr hwnnw wedi cael eu defnyddio (fel y bo'r achos) ar ei dir neu yn ei ddigwyddiad saethu, neu i reoli plâu.

A oes rhaid i'r un milfeddyg a dociodd gynffon fy nghï ei ffitio â microsglodyn?

Na, gall unrhyw filfeddyg ffitio ci â microsglodyn, er y mae'n bosibl na fydd ambell un yn barod i wneud hynny os na allan nhw brofi bod y dystysgrif yn ymwneud â'r un ci. Rhaid cofnodi rhif y microsglodyn ar y dystysgrif tocio.

A gaf i arddangos cŵn y mae eu cynffonnau wedi'u torri mewn sioe?

Os cafodd cynffon y ci ei thorri ar ôl 27 Mawrth 2007, ni chewch ddangos y ci mewn sioe lle bydd y cyhoedd yn talu tâl mynediad. Ond nid oes gwaharddiad ar ddangos ci â'i gynffon wedi'i thocio wrth arddangos ei ddoniau fel ci gwaith.

Os byddaf yn amau bod rhywun wedi tocio cynffon ci yn anghyfreithlon, wrth bwy y dylwn i ddweud?

Os ydych yn amau bod rhywun wedi tocio cynffon ci yn anghyfreithlon cysylltwch â thîm lles anifeiliaid eich Awdurdod Lleol (sydd fel arfer yn rhan o Safonau Masnach).

Rwy'n berchen ar gi yr oedd ei gynffon wedi cael ei thocio'n anghyfreithlon cyn iddo ddod yn eiddo i mi – a yw'n anghyfreithlon i mi fod yn berchen ar y ci?

Nac ydyw, er y gallai'r gynffon fod wedi'i thocio'n anghyfreithlon nid yw'n anghyfreithlon i fod yn berchen ar y ci. Cynghorir perchenogion i roi manylion y bridwr lle cawsant y ci i'r Awdurdod Lleol.